# STEM Learning Cyfyngedig

## Ymgynghorydd Addysg - Addysgu Digidol gyda Hyder

**Lleoliad:** Wedi'i leoli yng Nghymru, gyda hyblygrwydd ar gyfer ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb ar draws rhanbarthau

**Cyflog:** £50,000 i £55,000 bob blwyddyn

**Oriau:** Llawn Amser, 37 awr yr wythnos

Mae STEM Learning yn chwilio am ddau Ymgynghorydd angerddol a strategol i arwain ymgysylltiad a chyflwyno dysgu proffesiynol o ansawdd uchel sy'n cefnogi integreiddio sgiliau cyfrifiadurol a digidol ar draws Cwricwlwm Cymru.

**Y Rôl**

Fel Ymgynghorydd Addysg Dysgu STEM, byddwch yn:

- **Datblygu ac alinio cyrsiau dysgu proffesiynol** â'r Cwricwlwm I Gymru a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.
- **Adeiladu a chefnogi cymunedau athrawon** trwy gyfarfodydd rhwydwaith a'r Llwyfan Cymuned STEM.
- **Casglu a dadansoddi adborth** i wella'r cyrsiau a gynigir yn barhaus.
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid** gan gynnwys partneriaid cyflwyno, ysgolion, Gweld Gwyddoniaeth, ac awdurdodau lleol.
- **Hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant** trwy sicrhau cyflwyno a chefnogi dwyieithrwydd i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg.

**Ein Ymgeisydd Delfrydol**

Bydd ymgeiswyr yn gallu dangos ein gwerthoedd: Cynaliadwy – Arloesol – Rhagweithiol

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- Yn wybodus am y Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau addysg ddigidol.
- Yn brofiadol mewn datblygiad proffesiynol neu gyflwyno rhaglenni addysgol.
- Yn gyfathrebwr a hwylusydd rhagorol.
- Yn fedrus wrth feithrin perthnasoedd ag addysgwyr a rhanddeiliaid.
- Yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg (yn angenrheidiol).

**Amdanon ni**

Gweledigaeth STEM Learning yw 'gwella bywydau drwy addysg STEM' drwy rymuso pobl ifanc â'r sgiliau a'r wybodaeth i ffynnu drwy addysgu a dysgu effeithiol. I gyflawni hyn, mae STEM Learning yn darparu ystod o gefnogaeth sy'n cynnwys datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon ac addysgwyr eraill mewn pynciau penodol, adnoddau o ansawdd, y Rhaglen Llysgenhadon STEM, yn ogystal a gweithgareddau gwella a chyfoethogi.

**Ein Manteision**

- 30 diwrnod o wyliau ynghyd â gwyliau banc
- Mynediad at gynllun pensiwn deniadol
- Ein horiau amser llawn yw 37 awr yr wythnos
- Hyd at 3 diwrnod o wyliau gwirfoddoli â thâl y flwyddyn

- Rhaglen gymorth gynhwysfawr i weithwyr
- Mynediad at gynllun buddion staff gwirfoddol gan gynnwys cynllun benthyciad beicio i'r gwaith; cynlluniau arian yn ôl iechyd; profion llygaid am ddim; talebau disgownt a llawer mwy
- Cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol rhagorol i wella datblygiad gyrfa i bob aelod o staff, ar bob lefel, a phob cam o'u gyrfa.

Cymerwch olwg ar ein llyfryn buddion i gael gwybod mwy am y buddion rydyn ni'n eu cynnig.

**Camau nesaf**

Nid oes dyddiad cau ar gyfer y penodiad hwn; bydd ceisiadau'n cael eu hadolygu'n barhaus felly argymhellir ceisiadau cynnar.

**I wneud cais:**

Anfonwch y canlynol i ni:

- Eich CV cyfredol gan gynnwys manylion cyswllt dau ganolwr (nodwch, ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr heb eich caniatâd)
- Llythyr o eglurhad (dim mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 2 ochr o bapur A4) yn egluro eich diddordeb yn y rôl a pham eich bod chi'n meddwl y byddech chi'n ymgeisydd delfrydol.

Mae STEM Learning yn ymdrechu i fod yn amrywiol ac yn gynhwysol – lle gallwn ni I GYD fod yn ni ein hunain. Rydym yn annog ceisiadau o bob cefndir a chymuned, ac wedi ymrwymo i gyflogi timau â galluoedd, sgiliau a phrofiadau amrywiol.

Rydym yn meithrin diwylliant lle mae llais pob gweithiwr yn cael ei barchu a'i werthfawrogi.

## STEM Learning Cyfyngedig

| | |
|---|---|
| Manylion y Rôl | |
| Teitl: Ymgynghorydd Addysg - Addysgu Digidol gyda Hyder | Yn adrodd i: Gweler y trefniadaeth |
| Trefniadaeth | |




Pwrpas y Rôl

Gweledigaeth STEM Learning yw addysg STEM o'r radd flaenaf yn y byd i bob person ifanc ledled y DU. I gyflawni hyn, rydym yn darparu ystod o gefnogaeth i addysg ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol penodol i bynciau ar gyfer athrawon ac addysgwyr eraill, adnoddau o ansawdd sicr, cefnogaeth i Glybiau STEM a gweithgareddau eraill, a phrofiadau sy'n wynebu myfyrwyr. Ein cred yw y gall addysg STEM ragorol ynghyd â gweithgareddau cyfoethogi ac ysbrydoli STEM amserol, o ansawdd uchel a blaengar, effeithio'n gadarnhaol ar bobl ifanc a'u cyfleoedd yn y dyfodol a mynd i'r afael â'n bylchau sgiliau presennol a'n bylchau yn y dyfodol.

Bydd y rôl hon yn arwain ymgysylltiad lleol ac yn sicrhau bod dysgu proffesiynol o ansawdd uchel yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus sy'n cefnogi integreiddio sgiliau cyfrifiadurol a digidol ar draws Cwricwlwm I Gymru.

Canlyniadau Allweddol / Cyfrifoldebau a ddisgwylir o'r Rôl

**Prif gyfrifoldebau:**

**Aliniad Cwricwlwm a Datblygu Dysgu Proffesiynol**

- Arwain datblygiad cyrsiau dysgu proffesiynol ac adnoddau cysylltiedig i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm I Gymru a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.
- Cydweithio ag Adnodd a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod cynnwys y cwrs yn ategu blaenoriaethau cenedlaethol.

**Adeiladu Cymunedol ac Ymgysylltu ag Athrawon**

- Cynnal cyfarfodydd rhwydwaith athrawon (ar-lein ac wyneb yn wyneb) i feithrin dysgu gan gymheiriaid ac adeiladu cymunedau ymarfer cynaliadwy.
- Cynnal presenoldeb gweithredol ar blatfform Cymuned STEM, gan gefnogi deialog barhaus, rhannu adnoddau a datblygiad proffesiynol.

**Adborth a gwelliant parhaus**

- Casglu a dadansoddi adborth gan athrawon drwy werthusiadau, cyfarfodydd rhwydwaith, a llwyfannau ar-lein.

- Defnyddio mewnwelediadau i lywio datblygiad ailadroddus cyrsiau a sicrhau ymatebolrwydd i anghenion ymarferwyr.

**Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid**

- Gweithredu fel y prif gyswllt rhwng partneriaid cyflawni, ysgolion, a rhanddeiliaid cenedlaethol.
- Cefnogi ymdrechion cyfathrebu ac ymgysylltu mewn cydweithrediad â Gweld Gwyddoniaeth ac awdurdodau lleol.

**Cynhwysiant a Chydraddoldeb**

- Sicrhau mynediad cyfartal at ddysgu proffesiynol ledled Cymru, gan gynnwys darpariaeth ddwyieithog a chefnogaeth i ymarferwyr cyfrwng Cymraeg.
- Hyrwyddo cynhwysiant wrth ddylunio a chyflwyno cyrsiau, gan ddarparu ar gyfer cyd-destunau ysgol ac anghenion dysgu amrywiol.

**Targedau Effaith:**

- Cynyddu ymgysylltiad athrawon â dysgu proffesiynol a'r Gymuned STEM.
- Cefnogi gwelliannau mesuradwy yn hyder, cymhwysedd ac arfer ystafell ddosbarth athrawon.
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng dysgu digidol a chymwysiadau byd go iawn trwy integreiddio Llysgenhadon STEM.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dangos gwerthoedd STEM Learning: Cynaliadwy – Arloesol – Rhagweithiol

Gwybodaeth ychwanegol

Gweledigaeth STEM Learning yw ‘gwella bywydau drwy addysg STEM’ drwy rymuso pobl ifanc â’r sgiliau a’r gwybodaeth i ffynnu drwy addysgu a dysgu effeithiol. I gyflawni hyn, mae STEM Learning yn darparu ystod o gefnogaeth sy’n cynnwys datblygiad proffesiynol mewn pynciau penodol ar gyfer athrawon ac addysgwyr eraill, adnoddau o ansawdd uchel, y Rhaglen Llysgenhadon STEM, ac ystod o weithgareddau gwella a chyfoethogi.

Profiad ac arbenigedd perthnasol

**Sgiliau a Phrofiad Hanfodol:**

- Dealltwriaeth a phrofiad o’r Cwricwlwm i Gymru a blaenoriaethau addysg ddigidol.
- Profiad o ddylunio a datblygu cyrsiau Dysgu Proffesiynol ym meysydd cyfrifiadura a sgiliau digidol.
- Profiad o weithio o fewn system Addysg yng Nghymru gyda dysgwyr 3-16 oed.
- Sgiliau cyfathrebu a hwyluso rhagorol.
- Y gallu i feithrin perthnasoedd ag addysgwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid.
- Mae’r gallu i drafod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn angenrheidiol

Lleoliad

Wedi'i leoli yng Nghymru, gyda hyblygrwydd ar gyfer ymgysylltu ar-lein ac wyneb yn wyneb ar draws rhanbarthau.